

Cyngor Celfyddydau Cymru

Adolygiad Buddsoddi 2020

“Er Budd Pawb...”

Canllawiau Cynllunio

DRAFFT

Tachwedd 2019



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Cynnwys

Rhagair: y ddadl dros newid.....	4
1. Cwmpas yr Adolygiad – ein blaenoriaethau sydd bwysicaf	7
2. Cymhwystra – pwy all wneud cais?	7
3. Beth fydd yn llywio ein penderfyniadau buddsoddi?	9
4. Cyllid.....	12
5. Alinio â chyhoeddiadau am gyllid gan y llywodraeth.....	13
6. Yr amserlen a rhaglen gweithgarwch.....	14
7. Ein hymrwymiad i chi	15
8. Ymgynghori.....	16
9. Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data.....	17

Rhagair: y ddadl dros newid

Diolch am eich diddordeb yn Adolygiad Buddsoddi 2020.

Y tro hwn mae ffocws ein Hadolygiad Buddsoddi yn glir ac yn syml. Rydym ni eisiau i fwy o bobl yng Nghymru fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. Ac rydym ni eisiau i'r gweithgarwch a gyllidwn gyrraedd yn ehangach ar draws ystod lawn y cyhoedd yng Nghymru nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd.

Mae llawer o ddibenion gan gyllid cyhoeddus i'r celfyddydau: cynyddu dewis, lleihau'r costau i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr, hybu arloesi a chymryd risgiau. Mae cyllid cyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â 'methiant y farchnad' – gan fuddsoddi yn y gweithgareddau nad yw'r sector masnachol yn fodlon, neu nad yw'n gallu, eu cefnogi.

Ers ei ddechrau, mae dau nod gan gyllid cyhoeddus i'r celfyddydau: ymgyrraedd at ragoriaeth, a hybu mynediad i alluogi mwy o bobl i fwynhau a chael budd o'r celfyddydau. Ond tan yn gymharol ddiweddar, gellid dadlau mai'r cyntaf a gâi ei ffafrio ar draul yr ail.

Ymestyn allan at gynulleidfaoedd newydd yw prif bennawd yr Adolygiad Buddsoddi hwn. Ond nid yw hyn yn golygu ein bod yn rhoi heibio ein hymrwymiad i gefnogi celfyddydau o ansawdd da sydd nid yn unig yn difyrru, ond sydd hefyd yn ein hymestyn a'n herio.

Drwy ein cyllid rydym ni eisiau galluogi artistiaid i ddefnyddio eu dychymyg gorau, eu chwilfrydedd mwyaf holgar, i greu gwaith sy'n ymgysylltu â phobl. Celfyddyd sydd wedi'i llunio gydag angerdd a dychymyg. Celfyddyd sydd wedi'i saernïo a'i chynhyrchu'n dda, ac sy'n estyn allan ac yn cyffwrdd â ni. Mae Celfyddyd o'r fath yn ddilys, yn nodedig ac yn bwysig. Nid yw'r eiliad hwnnw sy'n codi croen gŵydd, o'i brofi unwaith, byth yn mynd yn angof. Mae profiadau o'r fath yn bwysig a dylent fod yn gonsyrn priodol i unrhyw Gyngor y Celfyddydau gwerth yr enw.

Mae ymdrechion i gynyddu cynulleidfaoedd wedi bod yn ganolog i bolisiâu cyllido Cyngor y Celfyddydau ers degawdau. Ond mae'r dystiolaeth yn dangos yn glir bod buddion buddsoddi cyhoeddus yn y celfyddydau wedi'u cyfyngu o hyd i gyfran fach o'r boblogaeth (fel arfer y cyfoethocaf a mwyaf hyddysg).

Edrychodd Adroddiad Comisiwn Warwick ar Ddyfodol Gwerth Diwylliannol yn 2015 ar gyllid i'r celfyddydau yn Lloegr. Fe nododd:

“...Fe nododd mai dim ond 15% o'r boblogaeth yw'r ddau grŵp sy'n ymgysylltu mwyaf â diwylliant a'u bod yn tueddu i fod â statws economaidd-gymdeithasol uwch.

DRAFFT

Hefyd yr 8% o'r boblogaeth gyfoethocaf, well eu haddysgu ac â'r amrywiaeth ethnig leiaf yw'r rhan fwyaf diwylliannol weithredol o bawb: rhwng 2012 a 2015 y rhain oedd yn gyfrifol (ar yr amcangyfrif mwyaf ceidwadol posibl) am o leiaf 28% o'r mynychuadau mewn theatr fyw, ac felly'n cael budd uniongyrchol o'r swm o £85 y pen, ar amcangyfrif, o gyllid gan Arts Council England i'r theatr.

Yr un 8% o'r boblogaeth hefyd oedd yn gyfrifol am 44% o'r mynychuadau mewn perfformiadau cerddoriaeth fyw, gan gael budd o'r swm o £94 y pen gan Arts Council England i gerddoriaeth.

O ran y celfyddydau gweledol, y lleiafrif hwn oedd yn gyfrifol am 28% o'r ymweliadau a £37 y pen o arian cyhoeddus."

Er nad yw'r sefyllfa lawn mor ddifrifol yng Nghymru, mae yna broblemau tebyg.

Roedd mynychu'r celfyddydau a chyfranogi ohonynt yng Nghymru yn 2018 yn parhau i gyfateb â safle cymdeithasol. Mae'r rhai yn y grŵp ABC1 uwch (y gweithwyr proffesiynol, cymwys ac nid gweithwyr â llaw) yn dangos mwy o duedd i fynychu'r celfyddydau na'r rhai yn y grwpiau C2DE is (y gweithwyr llaw medrus, lled-grefftus a di-greffft a phobl nad ydynt yn gweithio). Roedd hyn yn arbennig o amlwg o ran cyfranogi o'r celfyddydau pan oedd 40% yn unig o'r grwpiau C2DE yn ymwneud â'r agwedd hon o'u cymharu â thros 50% o oedolion ABC1.

Mae siaradwyr Cymraeg yn dangos mwy o duedd i fynychu a chymryd rhan yn y celfyddydau o'u cymharu â phobl ddi-Gymraeg. Yn 2018, mynychodd 87% o siaradwyr Cymraeg ddigwyddiad celfyddydol yn y flwyddyn flaenorol o gymharu â 84% o'r rhai di-Gymraeg.

Mae cydraddoldeb mynegiant yn ymestyn i'n dwy iaith a dylai'r cyfle i fwynhau'r celfyddydau a chyfranogi ohonynt a gweithio yn y maes hefyd. Rydym ni eisiau gweld yn arbennig waith Cymraeg o ansawdd da sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Dylai unrhyw artist neu sefydliad celfyddydol yng Nghymru ei chael yr un mor hawdd a boddhaus gweithio yn y Gymraeg ag yn y Saesneg. Gwyddom, fodd bynnag, nad felly y mae bob amser. Dyma ddiffyg rydym ni'n benderfynol o fynd i'r afael ag ef.

Rydym ni eisiau i Bortffolio Celfyddydol Cymru ddangos arweinyddiaeth ym mhob un o'r materion hyn. Ein huchelgais yw cymdeithas sy'n coleddu cydraddoldeb ac sy'n dathlu gwahaniaeth, boed o ran hil, rhywedd, rhywioldeb, oedran, iaith, anabled neu dlodi. Wedi'r cyfan, mae cymdeithas hael, oddefgar sydd â meddylfryd teg yn reddfodol gynhwysol ac yn gwerthfawrogi a pharchu creadigrwydd ei holl ddinasyddion. Ac fel hyn, mae Cydraddoldeb yn dod yn llai o fater o gwotâu a chydymffurfiaeth ac yn fwy o fater o egwyddor drefniadol sy'n ein hannog i ddod o hyd i ffyrdd gwell o ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

DRAFFT

Credwn nad oes modd dadlau ynghylch yr angen am newid. Ond mae'n fater o wneud dewisiadau 'da'. Mae'n ddigon hawdd dweud bod yn rhaid inni fod yn fwy cynhwysol, ond ni fydd yn hawdd gwneud hynny. Ond ni all fod yn iawn i fuddion y celfyddydau sy'n cael cyllid cyhoeddus gael eu mwynhau gan garfan mor fach. Helpwch ni i unioni hyn.



Cadeirydd



Prif Weithredwr

1. Cwmpas yr Adolygiad – ein blaenoriaethau sydd bwysicaf

- 1.1 Ein gweledigaeth yw Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl. Caiff ein gweledigaeth ei hesbonio'n fanylach yn y Cynllun Corfforaethol yr ydym wedi'i gyhoeddi, "Er Budd Pawb..." Rydym yn pwysu arnoch i ddarllen y ddogfen hon cyn cwblhau'ch cais.
- 1.2 Mae dwy flaenoriaeth yn sail i'n gweledigaeth:
1. Hybu **Cydraddoldeb** fel y sylfaen i ymrwymiad clir i ymgynraedd yn ehangach ac yn ddyfnach i bob cymuned ledled Cymru.
 2. **Cryfhau Gallu a Gwytwnch** y sector, gan ei wneud yn bosibl i dalent greadigol ffynnu
- Bydd y graddau y mae'ch cynlluniau'n cefnogi'r blaenoriaethau hyn yn sylfaenol i'ch gobaith o lwyddo.
- 1.3 Mae adolygiad buddsoddi 2020 yn broses sy'n seiliedig ar geisiadau. Bydd gofyn ichi gyflwyno **ffurflen gais** fer a chopi o'ch **cynllun busnes** diweddaraf.
- 1.4 Bydd cyllido Portffolio Celfyddydol newydd Cymru'n dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

2. Cymhwystra – pwy all wneud cais?

- 2.1 Y sefydliadau a fydd yn cael eu cynnwys i'w hystyried yn yr Adolygiad Buddsoddi (ac felly yn 'gymwys' i gael cyllid yn y dyfodol) yw:
- a. unrhyw sefydliad sydd:
 - o Gymru, ac sydd â chyfansoddiad ffurfiol fel un o'r canlynol:
 - Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant
 - elusen gofrestrdig (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol)
 - Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO)
 - Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC)
 - rhan o Awdurdod Lleol
 - sefydliad sydd â chyfansoddiad ysgrifenedig/memorandwm ac erthyglau cymdeithasiad sy'n adlewyrchu ffocws ar y celfyddydau
 - sefydliad sydd ag o leiaf pum ymddiriedolwr/cyfarwyddwr sydd wedi'u cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau erbyn 24 Ebrill 2020 neu Fwrdd Cyngori i'r sefydliadau hynny sy'n cael eu harwain gan gorff statudol (e.e. Awdurdod Lleol, Prifysgol neu'r BBC)

DRAFFT

- yn gallu darparu copiâu o ddwy flynedd o leiaf o ddatganiadau ariannol (cyfrifon archwiledig neu ddogfen gyfatebol i'ch sefydliad) gyda Thŷ'r Cwmnïau a/neu'r Comisiwn Elusennau
- yn gallu dangos hanes o hyrwyddo/rheoli rhaglen gydol y flwyddyn o weithgarwch celfyddydol o ansawdd da

- b. consortia o sefydliadau, ar yr amod bod pob aelod o'r consortiwm yn bodloni'r meini prawf cymhwysra yn 3.2 (i) a/neu (ii) uchod

Nodwch y bydd angen i sefydliadau presennol Portffolio Celfyddydol Cymru hefyd fodloni'r holl feini prawf hyn er mwyn gwneud cais. Bydd y rheiny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf erbyn y dyddiad gwneud cais yn cael eu hystyried yn anghymwys.

2.2 Ni fydd ceisiadau'n cael eu hasesu ond os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysra yn 2.2 uchod.

2.3 Nid yw cymhwysra yn gwarantu cyllid yn y dyfodol. Bydd angen i'r Cyngor gymharu'r cynigion mae'n eu cael â'n blaenoriaethau strategol a lefel yr arian sydd ar gael (os yw'n hysbys). Felly dylai ymgeiswyr adolygu eu cynigion yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn dda â'n blaenoriaethau

2.4 Ni fydd y canlynol yn gymwys:

- gwyliau, neu sefydliadau lle mai gweithgarwch o fath gŵyl yw'r prif waith celfyddydol. Fel gweithgareddau amser-benodol, ni fyddant yn gymwys i gael cyllid Portffolio Celfyddydol Cymru ar hyn o bryd.
- unigolion
- ysgolion (sefydliadau addysgol amser llawn sy'n annibynnol neu sydd o dan reolaeth awdurdod lleol)

(Mae'n bosibl y bydd ffynonellau cyllid eraill ar gael i gefnogi gwaith yr uchod. I gael mwy o wybodaeth, ewch i wefan Cyngor Celfyddydau Cymru.)

2.5 Cyn gwneud cais, dylech ystyried a fyddai gwneud cais yn iawn i'ch sefydliad chi. Mae aelodaeth o'r Portffolio yn dod â set wahanol o gyfrifoldebau a meini prawf adrodd. Mae'n bosibl y bydd ffynonellau cyllid eraill yn fwy priodol i gefnogi'ch gwaith.

3. Beth fydd yn llywio ein penderfyniadau buddsoddi?

3.1 Bydd tri mater trosfwaol yn llywio ein hasesiad o'ch ceisiadau:

- a. **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** – a ninnau'n un o gyrff cyhoeddus Cymru, rydym wedi ymrwymo trwy ein gweithgareddau i wneud cyfraniad cadarnhaol i egwyddorion y Ddeddf. Cliciwch [yma](#) i gael rhagor o fanylion.
- b. **Cydraddoldeb** – rydym ni'n herio ein hunain fel sefydliad, ein Portffolio a'r rheiny a gefnogwn yn y sector celfyddydol ehangach i roi mwy o bwys ar Gydraddoldeb. Cliciwch [yma](#) i gael rhagor o fanylion
- c. **Y Gymraeg** – cenedl ddwyieithog ydym ni, yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac fel unigolion. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a hybu'r celfyddydau yn Gymraeg a thrwy gyfrwng yr iaith. Rydym ni'n credu bod gan bawb yr hawl i ymchwilio i'w ddiwylliant ei hun, ei greadigrwydd ei hun, trwy ei ddewis iaith, pa un a yw'n ddefnyddiwr, yn gyfranogwr neu'n artist. Cliciwch [yma](#) i gael rhagor o fanylion.

Y rhain yw cyd-destun diwylliannol, cymdeithasol a deddfwriaethol ein gwaith.

3.2 Ein Cynllun Corfforaethol, "Er Budd Pawb..." yw'ch cyfeirbwynt hanfodol. Ond mae'n bosibl y cewch ddwy ddogfen arall yn ddefnyddiol hefyd, sef:

- a. **Ysbrydoli** – ein strategaeth i ddatblygu creadigrwydd a'r celfyddydau yng Nghymru ac i Gymru
- b. **Ymdrechu i Ragori** – ein Fframwaith Ansawdd i gynnal a datblygu effaith y celfyddydau yng Nghymru. Mae hwn yn disgrifio'r priodoleddau y disgwyliwn eu gweld mewn sefydliadau sy'n perfformio'n dda.

3.3 Mae ansawdd ac effeithiolrwydd yn hollbwysig. Rydym ni eisiau buddsoddi mewn Portffolio o sefydliadau a all ddangos naill ai hanes sefydledig o ragoriaeth, neu sydd â'r potensial amlwg i ragori.

3.4 Nid ydym yn disgwyl i bob sefydliad gyflawni yn erbyn pob un o'n meysydd targed. Yn ogystal ag asesu ceisiadau ar eu rhinweddau unigol eu hunain, bydd angen inni ystyried hefyd sut i ddatblygu Portffolio 'iach' o sefydliadau sy'n adlewyrchu gwahanol arbenigeddau, maint, math a chwmpas daearyddol. Er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad i'r celfyddydau ar draws Cymru, felly, mae'n bosibl y bydd angen inni ystyried rhai o'r pethau canlynol hefyd wrth wneud ein penderfyniadau:

- **amrywiaeth eclecticig a diddorol o ffurfiau celf** – o dro i dro, byddwn yn pwysleisio agweddau penodol ar y celfyddydau yr ydym eisiau eu datblygu
- **sefydliadau sy'n adlewyrchu ac yn ymgysylltu â'n cymunedau** – rydym ni eisiau cefnogi sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru sy'n ymgysylltu â chymunedau amrywiol ac anos eu cyrraedd ac yn hybu cynhwysiant a chydraddoldeb ym mhopeth a wnânt

- **cyfleoedd proffesiynol am gyflogaeth yn y celfyddydau** – rydym ni’n croesawu, ac yn clodfori, y gwaith pwysig sy’n cael ei wneud gan grwpiau celfyddydol gwirfoddol ac amatur. Fodd bynnag, rydym ni hefyd yn awyddus i sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru helpu’r proffesiynau celfyddydol i ddatblygu a thyfu, gan gomisiynu a chynhyrchu gwaith newydd a chefnogi gweithgareddau gweithwyr proffesiynol creadigol.
- **maint a math** – rydym ni eisiau cefnogi cymysgedd bywiog a diddorol o feintiau a mathau o sefydliad: sefydliadau cenedlaethol mawr a’r rheiny mae eu gwaith yn fwy lleol mewn cymuned benodol; cwmnïau sy’n gweithio o adeiladau neu’r rheiny sy’n gweithredu heb ganolfan barhaol; darparwyr sefydledig rhaglennu o ansawdd da a rhai datblygol ac arloesol sy’n gweithio mewn ffyrdd newydd a llai cyfarwydd
- **potensial strategol** - rydym ni’n disgwyl i bob sefydliad allu dangos ei fod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn perfformio’n dda. Dyma ein disgwyliad ‘awtomatig’. Fodd bynnag, gwyddom fod sefydliadau weithiau eisiau arloesi a symud i feysydd gweithgarwch newydd. Felly gallai sefydliad wneud cais am gymorth ar y sail ei fod yn symud i ffwrdd o’r meysydd mae wedi canolbwyntio arnynt yn y gorffennol i fynd ar ôl math newydd o genhadaeth artistig, lleoliad daearyddol neu ymgysylltu cymunedol; gallai fod eisiau mynd i’r afael â meysydd amlwg o wendid, diffyg darpariaeth neu ddiffyg cynrychiolaeth gymunedol. Mewn achosion o’r fath, byddai angen i’r sefydliadau hyn gynnig tystiolaeth glir ac argyhoeddiadol y gallai unrhyw newid yn eu strategaeth gael ei reoli’n llwyddiannus.
- **cydweithredu** – portffolio iach o sefydliadau yw un a all ddenu cefnogaeth gan amrywiaeth o randdeiliaid eraill. Gallai hyn fod ar ffurf cyllid partneriaethol yn ogystal ag incwm a enillir sy’n ei wneud yn llai dibynnol ar gyllid Cyngor y Celfyddydau. Gwyddom fod hwn yn gyfnod ariannol heriol. Fodd bynnag, ni fydd yr Adolygiad Buddsoddi’n ‘gwneud iawn’ am doriadau mewn cyllid gan bartneriaid. Hyd yn oed pe bai gennym yr arian i allu gwneud hyn – ac nid yw’r arian gennym – teimlwn ei bod yn bwysig ceisio cynnal amrywiaeth cyllid lle bynnag y bo modd.
- **dosbarthiad daearyddol** – rydym ni eisiau cefnogi rhwydwaith o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru ledled Cymru gyfan

3.5 Mater i aelodau o Gyngor Cyngor Celfyddydau Cymru yw penderfyniadau ar gyllid Portffolio Celfyddydol Cymru yn y dyfodol. Mae rhai aelodau o’r Cyngor yn gysylltiedig â sefydliadau penodol. Fel rhan o’n trefniadau llywodraethiant cyffredinol, mae pob aelod o’r Cyngor yn gwneud datganiad buddiannau ffurfiol. Bydd datganiadau buddiannau’n cael eu rheoli yn unol â Chod Ymarfer Cyngor y Celfyddydau.

3.6 Bydd penderfyniadau’r Cyngor ar gyllid yn cael eu llywio gan:

- ei flaenoriaethau strategol
- ceisiadau a gyflwynir gan sefydliadau cymwys

DRAFFT

- asesiadau wedi'u paratoi gan swyddogion a Chydweithwyr Celfyddydol Cyngor y Celfyddydau
- barn rhanddeiliaid a phartneriaid cyllido
- unrhyw asesiadau neu ddadansoddiad ychwanegol y gallai'r Cyngor ddymuno eu comisiynu yn ystod proses yr Adolygiad Buddsoddi

3.7 Er mwyn gwneud asesiad teg a chynrychiadol, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio gwybodaeth o rai neu bob un o'r ffynonellau canlynol wrth adolygu'ch cais. (Eich ffurflen gais fydd y brif ddogfen asesu.)

Ffynhonnell gwybodaeth	I aelodau presennol o Portffolio Celfyddydol Cymru	I ymgeiswyr newydd
Ffurflen gais	le	le
Cynllun Busnes	le	le
Cyllidebau ar gyfer 2020/21 i2023/24 gan gynnwys y blynyddoedd hynny	le	le
Cyfansoddiad: Dogfennau llywodraethiant sy'n adlewyrchu ffocws ar y celfyddydau	le	le
Gwybodaeth yn ymwneud â phrosiectau a gyllidwyd trwy arian y Loteri gan Gyngor y Celfyddydau dros y 5 mlynedd ddiwethaf	le	le
Data Monitro Ariannol fel y nodir yn Monitro Busnes ein Portffolio ar ein gwefan)	le	Nage
Cyfrifon ariannol ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf	Nage	le
Y set ddiweddaraf o gyfrifon rheoli	Nage	le
Data arolwg Portffolio Celfyddydol Cymru	le	Nage
Dogfennau Cytundeb Cyllido Portffolio Celfyddydol Cymru	le	Nage
Gwybodaeth Swyddogion	le	le
Adolygiadau beirniadol	le	le
Cynllun Cydraddoldeb Strategol	le	le
Cynllun Iaith Gymraeg	le	le

Bydd y rhan fwyaf o'r wybodaeth mae arnom ei hangen yr un peth i bob sefydliad. Lle bo gwahaniaethau, byddwn yn ymdrin â hyn gan ddefnyddio synnwyr cyffredin a chrebwyll.

4. Cyllid

- 4.1 Mae'n bosibl na fydd rhai sefydliadau sy'n cael eu cyllido ar hyn o bryd fel rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru yn cael cymorth refeniw mwyach ar ôl Ebrill 2021. A gallai sefydliadau eraill ddod yn aelodau newydd o'r Portffolio.
- 4.2 Bydd maint a 'siâp' Portffolio Celfyddydol Cymru'n dibynnu ar lefel y cyllid a gawn gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Ni waeth am lefelau cyllid yn y dyfodol, mae'n bwysig i bob sefydliad sydd eisiau bod yn aelod o'r Portffolio allu dangos sut y gall ein cynorthwyo i wireddu blaenoriaethau cynllun corfforaethol Cyngor y Celfyddydau 'Er Budd Pawb.' ac mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy'n ariannol.
- 4.3 **Mae'r broses a ddisgrifir yn y Canllawiau Cynllunio hyn wedi'i modelu ar dybiaeth y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn 2021/22 sy'n gyfwerth â'r hyn sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer 2020/21.** Bydd ein cynigion cyntaf am nifer y sefydliadau y gallwn eu cefnogi'n cael eu datblygu ar y sail honno. Fodd bynnag, os bydd y cyllid gan Lywodraeth Cymru'n gostwng, bydd yn rhaid ail-edrych ar ein cynigion.
- 4.4 At ddibenion cynllunio cyllidebau, gofynnir i ymgeiswyr gynnwys ffigurau cyllid gan Gyngor y Celfyddydau ar gyfer 2021/22, 2022/23 a 2023/24. Fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond fesul blwyddyn y gall Cyngor y Celfyddydau gadarnhau ffigurau cyllid.
- 4.5 Rydym yn disgwyl i bob sefydliad fod yn rhesymol o ran lefelau ariannu tebygol y dyfodol. Nid ydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa i gynyddu'r cyllid i bob sefydliad sy'n aelod o'r Portffolio ar hyn o bryd. Gwyddom fod sawl sefydliad yn ei chael yn anodd ymdopi ar lefel bresennol eu harian. Ond bydd ceisiadau sy'n gofyn am gynnydd sylweddol mewn perygl o gael eu gwrthod yn anffodus. Os gofynnwch am ragor, dylai fod gennych sail resymegol a ddisgrifir yn glir i wireddu'r blaenoriaethau yr ydym wedi'u pennu. Bydd y cyllidebau yn eich Cynllun Busnes yn ddogfen arall fydd yn ein helpu i asesu lefelau cyllido posibl.
- 4.6 Ni ddylid cynnwys dyraniadau penodol o gyllid prosiectau'r Loteri gan Gyngor y Celfyddydau fel ffigwr unigol mewn unrhyw gyllidebau a gyflwynir gyda'ch cais. Dylai'ch cais ddangos y gweithgarwch a fydd yn digwydd am y swm o arian yr ydych eisiau gwneud cais amdano.
- 4.7 Mae'n bosibl na fyddwn yn gallu'ch cyllido ar y lefel rydych wedi gofyn amdani ac mewn rhai achosion mae'n bosibl y bydd yn rhaid inni ystyried lleihau arian. Dylech ddangos yn glir y goblygiadau a lefelau realistig y gweithgarwch y gallech eu cyflawni pe baech chi'n cael llai o arian. Mae'n bosibl y byddwch eisiau dangos y senarios hyn trwy'ch cynllun busnes. Eich cyfrifoldeb chi yw nodi'n glir y gweithgarwch a fydd yn digwydd o ganlyniad.

5. Alinio â chyhoeddiadau am gyllid gan y llywodraeth

- 5.1 Ni fydd y Cyngor yn gallu cadarnhau cyllid blynyddoedd y dyfodol i aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru ond ar ôl iddo yntau gael cadarnhad o lefel ei gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae gan hyn oblygiadau sylweddol i broses yr Adolygiad Buddsoddi.
- 5.2 Felly byddwn yn dilyn proses tri cham i wneud penderfyniadau:

Cam 1

Ar yr amod y gwyddom beth yw cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru, byddwn yn cadarnhau'r cyllid ar gyfer 2020/21 ym mis Rhagfyr 2019.

Fodd bynnag, er mwyn bod yn deg, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad i holl aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru ym mis Mawrth 2020 bod potensial iddynt gollu eu cyllid gan Gyngor y Celfyddydau o 31 Mawrth 2021 ymlaen. Felly mae blwyddyn ariannol 2020/21 yn dod yn flwyddyn pontio/hysbysu.

Cam 2

Wedi asesu ceisiadau Portffolio Celfyddydol Cymru, byddai'r Cyngor – ym mis Medi 2020 – yn gwneud penderfyniadau 'mewn egwyddor' ynghylch y portffolio o sefydliadau y mae eisiau buddsoddi ynddynt o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Wrth wneud hynny, byddai hefyd yn nodi'r sefydliadau yn y Portffolio y byddai eu cyllid yn dod i ben neu'n gostwng. Byddem yn gofyn am i gynlluniau busnes cyfredol ac wedi'u hail-lunio gael eu cyflwyno'n unol â'r amserlen arferol.

Cam 3

O fis Hydref 2020 ymlaen byddwn yn ystyried senarios cyllido yn ystod y broses ymgeisio. Cyn gynted ag y caiff cyllid Cyngor y Celfyddydau gan y llywodraeth ei gadarnhau, byddem yn cyhoeddi cynigion cyllid ffurfiol i aelodau Portffolio Celfyddydol newydd Cymru. Byddem yn gobeithio gallu gwneud hyn erbyn mis Rhagfyr 2020.

6. Yr amserlen a rhaglen gweithgarwch

- 6.1 **Ymgynghoriad ar y Cylch Gorchwyl** (Tachwedd 2019 – Ionawr 2020): rhoesom gyfle i'r rheiny sy'n cymryd rhan ym mhroses yr Adolygiad Buddsoddi i gynnig sylwadau ar y Cylch Gorchwyl a'r broses ymgeisio yr oeddem yn bwriadu eu defnyddio. Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 10 Ionawr 2020.
- 6.2 **Cyflwyno ceisiadau ar lein** (Mawrth – Ebrill 2020): byddwn yn gwahodd yr holl sefydliadau 'cymwys' i gyflwyno cyflwyniad ffurfiol gan ddefnyddio **proses ymgeisio ar-lein**. Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- Bydd y broses ymgeisio yr un peth i bob sefydliad, a bydd pob sefydliad yn cael ei farnu yn erbyn un set o feini prawf. Y dyddiad cau i gyflwyno ceisiadau ar lein fydd **5.00pm ar ddydd Gwener 24 Ebrill**.
- 6.3 **Asesu** (Mai-Medi 2020): bydd yr holl geisiadau'n cael eu hasesu gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau gyda mewnbwn, fel bo'n briodol, gan ein Cydweithwyr Celfyddydol. Y Cydweithwyr Celfyddydol yw ein panel o weithwyr proffesiynol celfyddydol annibynnol a ddaw o bob rhan o Gymru. Maent yn darparu amrywiaeth fawr o wybodaeth arbenigol sectorol a rhanbarthol. Byddwn yn comisiynu cyngor technegol penodol os oes angen hyn. Byddwn yn gwneud mwy o waith gydag ymgeiswyr sydd wedi nodi'r seiliau ar gyfer ymagweddau cydweithio neu gydweithredu posibl.
- 6.4 **Sicrhau ansawdd** (Awst-Medi 2020): caiff yr holl asesiadau eu gwirio am gywirdeb a chysondeb. Bydd hyn hefyd yn gyfle i nodi, neu ystyried, unrhyw faterion strategol allweddol cyn i'r penderfyniadau terfynol gael eu gwneud.
- 6.5 **Penderfyniad** (Medi 2020): Bydd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau 'mewn egwyddor' ar aelodaeth Portffolio Celfyddydol Cymru yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Portffolio Celfyddydol newydd Cymru ar 29 Medi 2020.
- 6.6 **Cadarnhau cyllid** (Rhagfyr 2020): erbyn diwedd blwyddyn galendr 2020 rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i gadarnhau lefelau cyllid Portffolio Celfyddydol Cymru yn y dyfodol.
- 6.7 Byddai'r trefniadau cyllido newydd ar gyfer aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru'n dechrau ym mis Ebrill 2021.

7. Ein hymrwymiad i chi

7.1 Wedi inni nodi'r angen am Adolygiad Buddsoddi, cytunwyd ar set o egwyddorion trosfwaol ar gyfer y broses:

- sicrhau bod **un broses adolygu'n berthnasol yn yr un modd** i bob sefydliad
- **edrych ar ystod lawn y gweithgarwch a gyllidir**, gan ystyried i ba raddau mae artistiaid a chynulleidfaoedd yng Nghymru'n cael eu gwasanaethu'n briodol
- hybu **cynnwys cymuned y celfyddydau**, trwy ymgynghori, i'n helpu i lunio'r broses a ddefnyddiwn
- sicrhau **ymgyngoriad agored ac ystyrllon** gyda phartneriaid cyllido a rhanddeiliaid
- gwneud **penderfyniadau strategol**, gan wneud y dewisiadau ar sail mynegiant clir o'n blaenoriaethau
- ymrwymo i **fod yn agored ac yn dryloyw**, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r cyhoedd
- cydnabod y cyd-destun economaidd presennol a chwilio am gynigion sy'n cynrychioli **gwerth eglur am arian** trwy leihau'r ddibyniaeth ar gyllid gan Gyngor y Celfyddydau
- cynyddu **cynaliadwyedd** trwy annog sefydliadau i ddatblygu cynigion sy'n barhaol, yn gydnorth ac wedi'u gwreiddio yn y gymuned maent yn cael cefnogaeth oddi wrthi
- hymrwymiad i **ganiatáu digon o amser** i ganlyniadau'r broses gael eu rheoli'n briodol

7.2 Ni fyddwn yn asesu ceisiadau hwyr ac ni fyddwn yn gallu derbyn gwybodaeth ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r cais. Felly dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod wedi cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani ar adeg cyflwyno'r cais.

7.3 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau y daw'r cais llawn i law erbyn y dyddiad cau uchod.

8. Ymgynghori

- 8.1 Bydd deialog a thrafodaeth yn parhau drwy gydol proses yr Adolygiad Buddsoddi. I'r graddau hynny, bydd ymgynghori'n barhaus. Bydd rhan arbennig o'n gwefan yn cael ei neilltuo i wybodaeth a newyddion am broses yr Adolygiad Buddsoddi.
- 8.2 Bydd ein dull ymgynghori'n cael ei seilio ar:
- gyhoeddi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar ein gwefan, gan hybu deialog a thrafodaeth
 - ymgynghori ffurfiol ar ddogfennau sydd wedi'u cyhoeddi
 - cysylltu'n rheolaidd â Llywodraeth Cymru
 - mynd a/neu wneud cyflwyniadau i gyfarfodydd cyhoeddus, cynadleddau a seminarau perthnasol
- 8.3 Er mwyn inni warchod Portffolio Celfyddydol Cymru hyfyw, bydd angen modelau cyllido newydd o hyd. Rydym ni'n credu y bydd buddsoddiad cyhoeddus yn dal i fod yn ffynhonnell greiddiol cyllid, ond y bydd angen i'r ffynhonnell greiddiol honno leihau fel cyfran o gyfanswm yr incwm. Bydd cynhyrchu incwm yn dod yn bwysicach, i ni yn ogystal ag aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol inni feddwl yn wahanol am y ffordd y defnyddiwn yr arian a gawn. Mae'n debygol y byddwn eisiau ymchwilio i fodelau buddsoddi newydd.
- 8.4 Bydd ymgynghori ag awdurdodau lleol yn cynnwys trafod yn ofalus – mae rhai gwasanaethau neu isadrannau awdurdodau lleol hwythau'n aelodau o Portffolio Celfyddydol Cymru. Mae hyn yn rhoi awdurdodau lleol yn y sefyllfa unigryw o fod yn bartner cyllido ac yn gorff sy'n cael cyllid Portffolio Celfyddydol Cymru gan Gyngor y Celfyddydau. Rydym yn annog awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gymryd rhan yn y broses ymgynghori.
- 8.5 Ar ôl i unrhyw gyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad. Byddwn yn esbonio lle rydym wedi penderfynu gwneud newidiadau a lle rydym wedi penderfynu cadw at ein cynigion gwreiddiol. Byddwn hefyd yn esbonio'r rhesymau am ein gweithredoedd.

9. Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data

- 9.1 Rydym wedi ymrwymo i wneud proses yr Adolygiad Buddsoddi mor agored a thryloyw ag sy'n bosibl. Rydym yn credu bod gan y cyhoedd hawl i wybod sut yr ydym yn gwario arian cyhoeddus a sut yr ydym yn gwneud ein penderfyniadau cyllido. Felly ein nod yw cyhoeddi'r holl wybodaeth berthnasol ar ein gwefan, ac eithrio gwybodaeth sy'n wirioneddol gyfrinachol neu fasnachol sensitif.
- 9.2 Rydym wedi ein rhestru fel awdurdod cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. **O dan y gyfraith, mae'n bosibl y bydd yn rhaid inni ddarparu'ch dogfennau cais a gwybodaeth am ein hasesiad i unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n gofyn am gael eu gweld o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.** Mae'n bosibl na fyddwn yn cyhoeddi'r rhannau o'r dogfennau sy'n dod o dan un neu ragor o'r esemptiadau o dan y Ddeddf. Edrychwch ar y wefan [Rhyddid Gwybodaeth](#) i gael gwybodaeth am ryddid gwybodaeth yn gyffredinol a'r esemptiadau.
- 9.3 Ni fyddwn yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth am geisiadau yn ystod y cyfnod asesu, gan y gallai hyn ymyrryd â'r broses penderfynu. Mae ein polisi ar [Ryddid Gwybodaeth](#) ar gael ar ein gwefan.
- 9.4 Mae diogelu preifatrwydd a data personol ein cleientiaid ac ymwelwyr o'r pwys mwyaf inni. Bydd unrhyw ddata personol a geir ac a brosesir fel rhan o Adolygiad Buddsoddi 2020 yn unol â Deddf Diogelu Data 2018. Gellir gweld rhagor o fanylion ynghylch ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn, yn arbennig ein trefniadau ar gyfer trin ac asesu ceisiadau am gyllid, yn y [Polisi Preifatrwydd](#) yr ydym wedi'i gyhoeddi.